

# Dyserth-Cwm

## Pentref hanesyddol, hen reilffordd, creigiau calchfaen a golygfeydd gwych

**Pellter:** 11.2km / 7 milltir

**Amser:** Tua 4 awr

**Parcio a chychwyn:** Maes parcio Rhaeadr Diserth neu'r un mwy ar ffordd A5151

**Cyf. Grid:** SJ056793, Map OS Explorer 265

**Graddfa:** Cymedrol (peth dringo, nifer o risiau a chamfeydd)

**Cyfleusterau:** Yr holl gyfleusterau ym mhentref Diserth; Blue Lion Inn, Cwm, ffôn: 01745 570733

## Historic village, old railway, limestone crags and superb views

**Distance:** 11.2km / 7 miles


**Time:** Allow 4 hours

**Parking and start:** Diserth waterfall car park or larger car park on A5151

**Grid ref:** SJ056793, Explorer map 265

**Grade:** Moderate (some ascent, many steps and stiles)

**Facilities:** All facilities in Diserth; Blue Lion Inn, Cwm, tel: 01745 570733



### Y Daith Gerdded

**1.** O'r maes parcio, trowch i'r chwith ac i'r ffordd. Yn syth ar ôl y siop te ewch i'r chwith wrth y mynegbost ac i fyny'r grisiau. Ewch heibio'r olygfan gan fforchio i'r chwith ac i fyny mwy o risiau i'r tai, yna fforchio i'r dde wrth ochr 'Lapwing'. Ar ben y grisiau ewch i'r chwith i lawr mwy o risiau yn ymyl 'Pen Rhaeadr' (ddim ar y mynegbost). Croeswch y bont a dal ar y llwybr gan fynd heibio'r grisiau ar y chwith. Ewch ymlaen ar y llwybr arwyddedig 'Prestatyn-Diserth' a thrwy'r coed i groesi'r gamfa. Ewch i'r dde a dringo'r llethr serth i'r cae agored. Ewch ymlaen gan gadw'r llinell o goed ar y llaw chwith wedyn dilyn yr arwydd i'r hanner-dde i gamfa yng nghornel y coed. Croeswch y gamfa a dilyn y llwybr ffensiedig ar hyd ymyl y coed. Croeswch y lôn, dringo'r grisiau a mynd drwy'r giât mochyn sy'n wynebu ac i mewn i gae - Maes Hiraddug. Ewch hanner-dde dros y cae i'r giât a'r gamfa. Croeswch y gamfa a phont garreg y rheilffordd, a throi'n siarp i'r dde gan anwybyddu'r giât mochyn o'ch blaen. Ewch i lawr y grisiau a throi i'r dde o dan y bont gan ymuno â Llwyr Prestatyn-Diserth, arwyddedig 'Graig Fawr'. Ymlaen ar y llwybr hwn am 1.5km i'r adeilad cerrig (hen sied nwyddau'r rheilffordd) a'r panel ar y chwith.

**2.** Ewch i'r dde i'r llwybr sydd gyferbyn â'r adeilad ac wedyn drwy giât mochyn gan ddilyn y llwybr serth i fyny Graig Fawr. Cyn y giât mochyn nesaf tueddwch i'r dde i fyny'r grisiau pren. Ar ben y grisiau, tueddwch i'r chwith a dilyn yr arwyddion. Bydd gwifrau uwchben i ddechrau. Yna ewch i'r chwith wrth y gorlan ac i'r hanner-dde tua'r ffordd. (Piciwch i fyny ac i lawr Graig Fawr i weld yr olygfa). Ewch drwy'r giât mochyn ac i'r chwith ar hyd y ffordd. Dilynwch y ffordd am 250m at gamfa ar y dde wrth 'Clarence House', arwyddedig 'Marian Cwm'. Croeswch y gamfa a dilyn Llwyr Clawdd Offa (LLCO), a'r mes gwyn, gan groesi camfeydd mewn 4 cae cyn disgyn yn serth i lôn dawel. Trowch i'r chwith a cherddwch ar y lôn am 150m wedyn croeswch y gamfa gyntaf ar y llaw dde a cherdded ar draws dau gae gan gadw Tŷ Newydd ar y dde i gyrraedd y briffordd (gall fod yn fudr).

**3.** Trowch i'r dde, ewch dros y ffordd a chroesi'r gamfa sy'n eich wynebu. Ymlaen i'r gamfa nesaf a throi i'r dde i'r lôn ac i lawr at yr afon. Wrth y drofa siarp, gadewch LLCO. Trowch i'r dde a dilyn y lôn heibio adfeilion Grove Mill ar y llaw chwith. O'ch blaen mae chwarel Moel Hiraddug. Ewch ar hyd y lôn am 0.5 km, gan anwybyddu'r camfeydd. Ar ôl cyrraedd y ffordd, ewch i'r dde. Cymerwch y llwybr sydd ar y chwith



wrth y byngalo gwyn a dilyn y llwybr ffensiedig i'r dreif, yna trowch i'r dde. Croesi'r gamfa ar y dde a dilyn y llwybr drwy'r eithin i'r gamfa ysgol a'r cae agored, croesi tri chae dros gamfeydd ysgol a drwy'r giât i lôn y fferm.

**4.** Ewch i'r dde ar lôn y fferm. Croeswch y gamfa ar y dde cyn cyrraedd Tyddyn-y-cyll. Croeswch dri o gaeau sydd â chamfeydd a mynd i lawr y grisiau i'r lôn. Croeswch y gamfa sydd gyferbyn â'r coed. Ewch ymlaen drwy'r coed a dros ddwy gamfa arall cyn mynd i'r cae. Anelwch hanner - dde dros y cae a thua'r pentref. Bydd yr eglwys ar y chwith. Croesi'r gamfa a throï i'r dde ar hyd y ffordd gan fynd heibio'r Blue Lion ar y chwith.

**5.** Ymhen 50m, croeswch y gamfa ar y dde wrth ochr y tŷ, a mynd ymlaen i groesi'r gamfa. Troi i'r chwith ar gwr y goedlan a chroesi'r gamfa i mewn i'r cae agored. Ewch i fyny canol y cae serth a dros y gamfa wrth y giât ar y top. Croeswch gae arall gan gadw'r gwrych ar y llaw dde a dros gamfa arall i'r lôn (gofal!). Ewch ymlaen drwy'r giât mochyn sydd ar draws, yna i'r hanner-chwith i ddilyn y llwybr uchaf (o ddau lwybr) o gwmpas Moel Hiraddug. Ewch ymlaen am 250m ac yna ewch drwy'r giât mochyn ac ymlaen am 400m. Wrth y mynegbost cyntaf ar ymyl y goedlan, ewch ar y llwybr ar y dde i fyny'r grisiau ac ymlaen i'r gamfa sy'n mynd i'r ffordd fach wrth 'Primrose Cottage'. Ewch i'r dde ar hyd y ffordd, gan ymuno â Ffordd Isa Foel yn y diwedd. Ewch yn eich blaen i briffordd Diserth troi i'r chwith, a cherdde i mewn i Ddiserth. Trowch i'r dde i'r llwybr sydd yr ochr arall i'r Cross Keys, arwyddedig 'Rhaeadr Diserth'. Dilynwch y llwybr ac i lawr y grisiau ar y chwith i'r ffordd. Trowch i'r dde wrth y siop te ac yn ôl i'r maes parcio.

## The Walk

**1.** From car park turn left onto road. Immediately after teashop turn left by fingerpost and go up steps. Continue past viewpoint branching left and then up next flight to houses, branching right alongside Lapwing. At top of steps turn left down more steps next to Pen Rhaeadr (not marked on fingerpost). Cross bridge and continue on path passing steps on left. Continue on path, signed Prestatyn-Dyserth Way, through trees to cross stile. Turn right and climb steep bank into an open field. Go ahead, following left-hand tree line, then follow waymarker half-right to stile in corner of wood. Cross stile and follow fenced path along woodland edge. Cross lane, climb up steps and go through kissing gate opposite into a field, Maes Hiraddug. Go half-right across field to gate and stile. Cross stile and stone railway bridge then turn sharp right, ignoring kissing gate ahead. Go down steps to turn right under the bridge joining Prestatyn-Dyserth Way, signed Graig Fawr. Continue on this path for

1.5km to a stone building (the old railway goods shed) and a panel on the left.

**2.** Turn right on path directly opposite the building and then through kissing gate, following steep path up Graig Fawr. Before next kissing gate bear right up log steps. At top of steps, bear left and follow waymarkers, initially in line with the power lines, then left at a sheep pen and half-right towards the road. (Detour to Graig Fawr summit for spectacular views.) Go through kissing gate and turn left along road. Follow road for 250m to a stile on right beside Clarence House, signed Marian Cwm. Cross stile and follow Offa's Dyke Path (ODP), marked with white acorns, crossing stiles in four fields before dropping down steep bank to a quiet lane. Turn left along lane for 150m then cross first stile on right and walk across two fields, keeping Ty Newydd farm on right, to reach main road (can be very muddy).

**3.** Turn right then cross road and stile opposite. Continue to next stile and turn right onto lane descending to the river. Leave ODP at hairpin bend, turning right to follow lane past derelict Grove Mill on the left. Ahead is Moel Hiraddug quarry. Continue along lane for 0.5 km, ignoring all stiles. At road turn right. Take path on left alongside white bungalow and follow fenced path to a drive and turn right. Cross stile on right and follow path through gorse bushes to ladder stile and open field. Cross three fields with ladder stiles then through gate onto a farm track.

**4.** Turn right along track. Cross stile on right before Tyddyn-y-cyll farm. Cross three fields with stiles and descend steps to a lane. Cross stile opposite into woodland. Continue through woods over two more stiles before entering field. Head half-right across field towards the village, keeping the church on the left. Cross a stile and turn right along the road passing the Blue Lion pub on the left.

**5.** After 50m cross stile on right alongside a cottage. Go ahead to cross a stile. Turn left along woodland edge then cross a stile into an open field. Walk up the middle of a steep banked field and over stile by gate at top of hill. Cross another field, keeping hedge on right, to go over a stile onto a lane (caution). Continue ahead through kissing gate opposite then half-left to follow the upper of two paths around Moel Hiraddug. Continue for 250m then go through a kissing gate then continue for 400m. At fingerpost on woodland edge take path on right up steps and continue to a stile leading onto a minor road by Primrose Cottage. Turn right along road, eventually joining Ffordd Isa Foel. Continue ahead to the main Dyserth road then turn left and walk into Dyserth. Turn right onto a path opposite the Cross Keys pub, signed Dyserth Waterfall. Follow path and go down steps on left to a road. Turn right at teashop to return to car park.

## Rheilffordd Prestatyn-Dyserth

*Roedd y rheilffordd hon yn cysylltu Diserth a Galltymelyd gyda phrif lein Caer - Caer gybi ym Mhrestatyn. Arni, cludwyd cynnyrch y mwynloddiau a'r chwareli o 1869 tan ganol yr 20fed ganrif. Byddai teithwyr yn ei defnyddio hefyd a bu'r tren yn hanfodol i'r cymunedau lleol a'r busnesau. Byddai'r wagenni'n cael eu gwagu yn Sied Nwyddau Galltymelyd a'r nwyddau'n cael ei llwytho i'r cyffylau a'r troliau oedd yn aros yno i'w dosbarthu yn yr ardal leol; cludwyd cynnyrch lleol ar y daith yn ôl. Gallwch weld olion y mesurydd llwytho a ddefnyddid i fesur y llwyth rhag iddo fod yn rhy uchel i allu mynd o dan y pontydd a'r twneli.*

## Prestatyn-Dyserth Railway

*The railway linked Dyserth and Meliden with the main Chester-Holyhead line at Prestatyn and was used to transport mining and quarrying products from 1869 until the mid 20th century. Passengers were also carried and the train became the lifeline for the local communities and businesses. Trucks were unloaded in Meliden Goods Shed onto waiting horse and carts for delivery in the local area. Locally produced goods were transported on the return trip. You can still see the remains of a loading gauge used to prevent trucks being loaded too high to go under the bridges and tunnels.*

